**CYNGOR SIR FYNWY**

**Cofnodion y cyfarfod o'r Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Yr Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA ar Dydd Mawrth, 7 Mawrth, 2017 am 2.00 pm**

**MYNYCHWYR:** Y Cynghorydd Sir R. Edwards (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Sir P. Clarke (Is-gadeirydd)

Cynghorwyr Sir: D. Blakebrough, R. Chapman, D. Dovey, D. Edwards, R. Harris, B. Hayward, J. Higginson, P. Murphy, M. Powell, B. Strong, A. Wintle

Mynychodd y Cynghorwyr Sir G. Burrows a G. Down y cyfarfod drwy wahoddiad y Cadeirydd.

**SWYDDOGION YN BRESENNOL:**

| | |
|---|---|
| Mark Hand | Head of Planning, Housing and Place-Shaping |
| Philip Thomas | Development Services Manager |
| Paula Clarke | Planning Applications and Enforcement Manager |
| Shirley Wiggam | Senior Strategy & Policy Officer |
| Mark Davies | Traffic & Development Manager |
| Robert Tranter | Head of Legal Services & Monitoring Officer |
| Richard Williams | Democratic Services Officer |

**YMDDIHEURIADAU:**

Cynghorwyr Sir: D. Evans, P. Watts, A. Webb

1. **Datganiadau o Fuddiant.**

Ni wnaed unrhyw ddatganiadau o fuddiant gan yr Aelodau.

2. **Cadarnhau cofnodion y cyfarfod blaenorol.**

Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio dyddiedig 7fed Chwefror 2017 ac fe'u ;llofnodwyd gan y Cadeirydd.

3. **CAIS DC/2010/00969 - 15 RHANDY GOFAL ARBENIGOL AR GYFER Y GRŴP OEDRAN DROS 55 GYDA LLEOEDD PARCIO, MYNEDIAD O'R MAES PARCIO CYHOEDDUS PRESENNOL. TIR YNG NGHEFN ST MAURS, SGWÂR BEAUFORT, CAS-GWENT.**

Rhoesom ystyriaeth i adroddiad y cais, a'r ohebiaeth hwyr a gyflwynwyd, i'w wrthod am y tri rheswm, fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad.

Roedd yr Aelod lleol dros St. Mary's yn analluog i fynychu cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio i siarad ynghylch y cais hwn. Fodd bynnag, roedd y Cadeirydd wedi cytuno y byddai Aelod o'r Pwyllgor yn cyfleu ei safbwyntiau i'r Pwyllgor, fel a ganlyn:

- Byddai'r datblygiad arfaethedig yn cael effaith ddifrifol ar galon hanesyddol Cas-gwent yn nhermau amwynder, pensaernïaeth ac mewn sawl ffordd arall tra roedd y datblygiad yn cael ei gyflawni ac ar ôl hynny.

- Mae’r Aelod lleol yn cwestiynu addasrwydd y safle ar gyfer y math hwn o ddatblygiad.

- Felly, mae’r Aelod lleol yn cymell y Pwyllgor i ystyried gwrthod y cais yn seiliedig ar y rhesymau a grybwyllwyd ac yn unol ag argymhelliad y swyddog.

Wedi ystyried adroddiad y cais a’r safbwyntiau a fynegwyd gan yr Aelod lleol, mynegodd yr Aelodau’r pryderon canlynol:

- Bydd mynediad i’r safle drwy’r maes parcio’n cael effaith negyddol ar gyfleusterau parcio sydd ar gael eisoes i siopwyr. Mae’r ddarpariaeth barcio yng Nghas-gwent eisoes yn gyfyngedig.

- Ni fyddai’r mynediad amgen drwy Stryd Hocker Hill yn addas.

- Byddai’r datblygiad yn cael ei leoli o fewn safle tyn ac fe fyddai’n tynnu oddi ar yr heneb hynafol.

Cynigiwyd, felly, gan y Cynghorydd Sir R. J. Higginson ac eiliwyd gan y Cynghorydd Sir P. Murphy fod cais DC/2010/00969 yn cael ei wrthod am y tri rheswm, fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad.

Cymerwyd pleidlais a chofnodwyd y pleidleisiau canlynol:

| | | |
|---|---|---|
| O blaid gwrthod | - | 13 |
| Yn erbyn gwrthod | - | 0 |
| Atal pleidlais | - | 0 |

Cariwyd y cynnig.

Penderfynasom fod cais DC/2010/00969 yn cael ei wrthod am y tri rheswm, fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad.

**4. <u>CAIS DC/2016/00953 - CAIS AMLINELLOL AR GYFER DATBLYGIAD TAI, 17 UNED GYDA PHOB MATER WEDI EU CADW HEBLAW AM FYNEDIAD. HILL FARM PWLLMEURIG.</u>**

Rhoesom ystyriaeth i adroddiad y cais, a’r ohebiaeth hwyr a gyflwynwyd, a argymhellwyd i’w gymeradwyo yn amodol ar yr wyth amod, fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad a hefyd yn amodol ar yr amodau, fel yr amlinellwyd yn yr ohebiaeth hwyr, yn ymwneud ag isadeiledd Gwyrdd ac Ecoleg. Hefyd, yn amodol ar Gytundeb Adran 106 yn ei gwneud yn ofynnol bod naw o’r unedau preswyl yn cael eu darparu fel tai fforddiadwy naill ai ar gyfer perchnogaeth cartref ar gost isel neu rent cymdeithasol; bod cyfraniad ariannol o £56,438 yn cael ei wneud yn lle tai fforddiadwy parthed lleiniau arfaethedig 1 a 2, a chyfraniad ariannol i’w wneud ar gyfer mabwysiadu Clôs Pentwyn.

Amlinellodd yr Aelod lleol dros Shirenewton, yn bresennol yn y cyfarfod ar wahoddiad y Cadeirydd, y pwyntiau canlynol:

Lleolir y safle o fewn y Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) a chytunwyd yr egwyddor o ddatblygu ar y safle hwn. Fodd bynnag, gwnaed y pwyntiau canlynol:

- Mae'r mynediad presennol mor llydan â chynhwysydd dur. Dymchwelir mur cefn Hill House ynghyd â hen dŷ allan. Fodd bynnag, mae'r Aelod lleol yn dal heb ei argyhoeddi y bydd y mynediad yn ddigonol ar gyfer traffig sy'n mynd heibio a llwybr troed.

- Y newidiadau arfaethedig yng Nghlôs Pentwyn - Mae cynnig i haneru'r cylch troi a thirlunio un rhan o'r cylch a gadael y rhan arall fel priffordd. Mynegwyd pryder na fydd cynnal a chadw'r ardal a dirluniwyd yn cael ei gynnal yn y dyfodol. Nid oes angen i'r ardal hon gael ei thirlunio. Byddai llinellau gwyn ar yr heol yn ddigonol ar gyfer penderfynu blaenoriaethau.

- Mae tystiolaeth o orlifiad carthion o ddau glawr twll caead yn agos i Mounton Brook. Mae Dŵr Cymru wedi gosod bêls gwellt a ffens o gwmpas y cloriau twll caead. Fodd bynnag, mae angen gwneud gwelliannau i'r carthion cyn i unrhyw waith gychwyn ar y datblygiad.

- Lleolir y datblygiad ar ochr ogleddol yr A48. Lleolir yr holl amwynderau/gyfleusterau ar ochr ddeheuol yr A48. Dylid ychwanegu amod i'r datblygiad - y dylid darparu croesfan i gerddwyr ar yr A48 i ganiatáu mynediad hawdd i amwynderau.

Hysbysodd y Rheolwr Traffig a Datblygu y Pwyllgor fod yr ymgeisydd wedi dangos y gallant ddarparu cerbytffordd 4.8 metr o led sy'n lled safonol ar gyfer datblygiad preswyl, sy'n fwy na digonol i ganiatáu cerbyd cyflenwi safonol a char i basio. Darperir llwybr troed hefyd sy'n cysylltu i mewn i'r ddarpariaeth llwybr troed bresennol i mewn i Glôs Pentwyn ac ar yr A48.

Parthed tirlunio, bydd yr ymgeisydd, fel rhan o'r Cytundeb Adran 278, yn talu swm gohiriedig ar gyfer rhwymedigaethau cynnal a chadw'r ardal a dirluniwyd yn y dyfodol. Gellir negodi manylion technegol y tirlunio yn hwyrach. Felly, mae'r egwyddorion yno i ddarparu cyfrwng addas o fynediad.

Nid oedd y dyraniad gwreiddiol yn y CDLl yn nodi'r angen i ddarparu croesfan i gerddwyr ar yr A48 yn y lleoliad hwn a byddai'n anodd cyfiawnhau'r ddarpariaeth honno ar yr adeg hon ar gyfer datblygiad o'r math hwn. Byddai cyllid Adran 278 yn rhy brin i gyllido croesfan o'r fath.

Wedi ystyried adroddiad y cais a'r safbwyntiau a fynegwyd, nododd Aelodau'r pwyntiau canlynol:

- Mae'r CDLl wedi neilltuo'r ardal hon ar gyfer datblygu

- Mae'r materion sy'n ymwneud â'r mynediad yn ddigonol ar gyfer y datblygiad.

- Bydd angen mynd i'r afael â'r cynllun carthion yng nghyfnod y materion a gedwir yn ôl.

- Mae angen i ddyluniad y datblygiad weddu i'r ardal o gwmpas, mater y dylid mynd i'r afael ag ef gyda'r ymgeisydd yn y cyfnod cyn-ymgeisio.

- Mewn ymateb i gwestiwn Aelod ynghylch plant ysgol yn cael mynediad i ysgolion cynradd lleol, hysbysodd yr Aelod lleol y Pwyllgor mai dalgylch yr ysgol gynradd yw The Dell a'r ysgol uwchradd yw Ysgol Gyfun Cas-gwent. Mae bysys sy'n casglu ac yn dychwelyd y plant i ac o'r ysgol. Mae safleoedd bws yn y pentref ond mae'r heol yn brysur.

Atgoffodd y Pennaeth Cynllunio, Tai a Llunio Lleoedd yr Aelodau mai safle 60-40 yw hwn a'r prif ddiben yw cyflenwi'r tai fforddiadwy sydd eu hangen. Felly, ni ofynnwyd am Gyllid Adran 106. Eglurwyd hefyd y sicrheid y gymysgedd o dai fforddiadwy yng nghyfnod y Materion a Gedwir yn ôl ond nad oedd y gymysgedd a nodwyd ar y cynllun wedi'i chymeradwyo gan nad oedd yn gweddu i ofynion y Swyddog Tai.

Cynigiwyd, felly, gan y Cynghorydd Sir P. Murphy ac eiliwyd gan y Cynghorydd Sir R.G. Harris fod cais DC/2016/00953 yn cael ei gymeradwyo yn amodol ar yr wyth amod, fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad a hefyd yn amodol ar yr amodau, fel yr amlinellwyd mewn gohebiaeth hwyr, yn cyfeirio at Isadeiledd Gwyrdd ac Ecoleg. Hefyd, yn amodol ar Gytundeb Adran 106 yn ei gwneud yn ofynnol bod naw o'r unedau preswyl yn cael eu darparu fel tai fforddiadwy naill ai ar gyfer perchnogaeth cartref ar gost isel neu rent cymdeithasol; bod cyfraniad ariannol o £56,438 yn cael ei wneud yn lle tai fforddiadwy parthed lleiniau arfaethedig 1 a 2, a chyfraniad ariannol i'w wneud ar gyfer mabwysiadu Clôs Pentwyn.
.
Cymerwyd pleidlais a chofnodwyd y pleidleisiau canlynol:

| | | |
|---|---|---|
| O blaid cymeradwyo | - | 13 |
| Yn erbyn cymeradwyo | - | 0 |
| Atal pleidlais | - | 0 |

Cariwyd y cynnig.

Penderfynasom fod cais DC/2016/00953 yn cael ei gymeradwyo yn amodol ar yr wyth amod, fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad a hefyd yn amodol ar yr amodau, fel yr amlinellwyd mewn gohebiaeth hwyr, yn cyfeirio at Isadeiledd Gwyrdd ac Ecoleg. Hefyd, yn amodol ar Gytundeb Adran 106 yn ei gwneud yn ofynnol bod naw o'r unedau preswyl yn cael eu darparu fel tai fforddiadwy naill ai ar gyfer perchnogaeth cartref ar gost isel neu rent cymdeithasol; bod cyfraniad ariannol o £56,438 yn cael ei wneud yn lle tai fforddiadwy parthed lleiniau arfaethedig 1 a 2, a chyfraniad ariannol i'w wneud ar gyfer mabwysiadu Clôs Pentwyn.

**CYNGOR SIR FYNWY**

**Cofnodion y cyfarfod o'r Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Yr Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA ar Dydd Mawrth, 7 Mawrth, 2017 am 2.00 pm**

5. **CAIS DC/2016/01449 - HYBYSFWRDD DIGIDOL YN RHOI GWYBODAETH GYHOEDDUS AC O BOSIBL HYSBYSEBU MASNACHOL, GOFOD AGORED CYHOEDDUS, CYFFORDD STRYD FAWR A STRYD NEVILL, Y FENNI.**

Rhoesom ystyriaeth i adroddiad y cais, a'r ohebiaeth hwyr, a argymhellwyd i'w gymeradwyo yn amodol ar y ddau amod, fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad.

Mynychodd yr Aelod Cabinet â chyfrifoldeb dros Ofal Cymdeithasol, Diogelu ac Iechyd, y cyfarfod ar wahoddiad y Cadeirydd ac amlinellodd y pwyntiau canlynol parthed ceisiadau DC/2016/01449 a DC/2016/01452 sy'n cyfeirio at y ddarpariaeth o hysbysfyrddau digidol yn Y Fenni.

Yr egwyddorion y tu ôl i'r ddarpariaeth o hysbysfyrddau digidol:

- Ni ddefnyddir yr hysbysfyrddau digidol ar gyfer hysbysebu.
- Eu diben yw cyfathrebu digwyddiadau a materion o ddiddordeb er mwyn i'r gymuned sy'n mynd heibio eu gweld.
- Nid yw'r gyrrwr y tu ôl i'r hysbysfyrddau digidol yn fasnachol.
- Mae'r Awdurdod yn derbyn ymholiadau o safon uchel i roi cynnwys ar y byrddau cyntaf ond mae'n cymryd ei amser i sefydlu'r math o gynnwys sy'n gweithio ar gyfer y cyfrwng hwn.
- Mae'r cynnwys ar y foment yn rhad ac am ddim ond rhagwelir tanysgrifiad bychan neu ffi untro yn y dyfodol i gwmpasu'r costau.
- Bydd y Gymdeithas Ddinesig yn cael eu cynnwys ar y bwrdd am byth a bydd yn rhad ac am ddim.
- Cyngor Sir Fynwy fydd cymrodeddwr terfynol unrhyw gontractau yn y dyfodol a chyda phwy.
- Ni osodir byrddau pellach, nes bod pawb yn fodlon bod yr holl broblemau wedi'u datrys ond byddai'n fuddiol cael yr holl ganiatadau yn eu lle cyn i'r Aelod Cabinet adael y Cyngor ar ddiwedd y tymor hwn o'r Cyngor.
- Rhagwelir llwyfan digidol o oddeutu dwsin o fyrddau digidol ar draws y Sir yn darparu cynnwys ar draws y Sir a gwybodaeth benodol i'w hardal.

Mynegodd yr Aelod lleol dros Grofield, hefyd yn Aelod o'r Pwyllgor Cynllunio, ei gefnogaeth i'r cais ac nid oed ganddo wrthwynebiad i'w leoliad. Roedd yr adborth oddi wrth y cyhoedd ynghylch y bwrdd presennol wedi bod yn ardderchog.

Gofynnodd yr Aelod Cabinet i'r Pwyllgor ystyried cadw'r lliw presennol, fel gyda'r holl hysbysfyrddau digidol eraill, i gynnal yr edrychiad.

Wedi ystyried adroddiad y cais a'r safbwyntiau a fynegwyd, mynegodd yr Aelodau eu cefnogaeth i'r cais gan ddiolch i'r Aelod Cabinet am y gwaith a gyflawnwyd ganddo i yrru'r mater hwn rhagddo.

Cynigiwyd, felly, gan y Cynghorydd Sir D. Edwards ac eiliwyd gan y Cynghorydd Sir M. Powell fod cais DC/2016/01449 yn cael ei gymeradwyo yn amodol ar y ddau amod, fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad a bod amod ychwanegol yn cael ei ychwanegu i sicrhau bod ffrâm y sgrin yn las, nid du, i weddu i'r hysbysfwrdd y mae i gael ei osod arno.
.

Cymerwyd pleidlais a chofnodwyd y pleidleisiau canlynol:

| | | |
|---|---|---|
| O blaid cymeradwyo | - | 13 |
| Yn erbyn cymeradwyo | - | 0 |
| Atal pleidlais | - | 0 |

Cariwyd y cynnig.

Penderfynasom fod cais DC/2016/01449 yn cael ei gymeradwyo yn amodol ar y ddau amod, fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad a bod amod ychwanegol yn cael ei ychwanegu i sicrhau bod ffrâm y sgrin yn las, nid du, i weddu i'r hysbysfwrdd y mae i gael ei osod arno.

6. **CAIS DC/2016/01452 - HYBYSFWRDD DIGIDOL YN RHOI GWYBODAETH GYHOEDDUS AC O BOSIBL HYSBYSEBU MASNACHOL, GOFOD AGORED CYHOEDDUS, SGWÂR SANT IOAN, Y FENNI.**

Rhoesom ystyriaeth i adroddiad y cais, a'r ohebiaeth hwyr, a argymhellwyd i'w gymeradwyo yn amodol ar y ddau amod, fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad.

Ystyriai'r Aelod lleol dros Grofield, hefyd yn Aelod o'r Pwyllgor Cynllunio, y bydd yr hysbysfwrdd digidol arfaethedig yn cael ei leoli yn y lle anghywir. Ystyriai y byddai'n well petai wedi'i leoli ym mhen pellaf Sgwâr Sant Ioan yn agos i Siop Sue Ryder.

Hysbysodd y Rheolwr Gwasanaethau Datblygu y Pwyllgor y gellid symud, os bydd angen, y bin gwastraff a'r cynhwysydd planhigion, sydd wedi'u lleoli ar hyn o bryd gerllaw'r safle arfaethedig ar gyfer y bwrdd arddangos digidol, i wella mynediad. Nid oedd y cynllun yn adlewyrchu'n glir y lleoliad arfaethedig ac ni leolir yr arwydd i greu rhwystr i symudiadau cerddwyr mewn cyfuniad â dodrefn stryd arall.

Dewiswyd y lleoliad ar gyfer y byrddau arddangos digidol fel un o'r tair ardal o fewn y dref lle gellid lleoli byrddau arddangos digidol. Bydd y lleoliad hwn yn tynnu sylw cerddwyr sy'n mynd heibio a bydd yn wynebu'r gogledd, fel gyda'r ddau fwrdd arall, i osgoi golau tanbaid o'r haul. Mae'r ceblau trydan eisoes yn eu lle yn y lleoliad hwn, nesaf at Gabinet BT.

Wedi derbyn adroddiad y cais a'r safbwyntiau a fynegwyd, ystyriai mwyafrif yr Aelodau y lleolir y bwrdd arddangos digidol arfaethedig yn y lle cywir gan fynegi'u cefnogaeth i'r cais.

Wedi gwrando ar yr eglurhad parthed y rhesymeg y tu ôl i leoliad y bwrdd arddangos digidol arfaethedig, roedd yr Aelod lleol yn fodlon â'r cais.

Cynigiwyd, felly, gan y Cynghorydd Sir D. Edwards ac eiliwyd gan y Cynghorydd Sir P. Murphy fod cais DC/2016/01452 yn cael ei gymeradwyo yn amodol ar y ddau amod, fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad a bod amod ychwanegol yn cael ei ychwanegu bod yr hysbysfwrdd yn las i weddu i eraill yn y canol tref.

Cymerwyd pleidlais a chofnodwyd y pleidleisiau canlynol:

| | | |
|---|---|---|
| O blaid cymeradwyo | - | 13 |
| Yn erbyn cymeradwyo | - | 0 |
| Atal pleidlais | - | 0 |

Cariwyd y cynnig.

Penderfynasom fod cais DC/2016/01452 yn cael ei gymeradwyo yn amodol ar y ddau amod, fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad a bod amod ychwanegol yn cael ei ychwanegu bod yr hysbysfwrdd yn las i weddu i eraill yn y canol tref.

**7. <u>CAIS DC/2017/00090 - CYNNIG AD-DREFNU MEWNOL AC YMESTYN ANNEDD BRESENNOL. LINDSEY, THE NARTH, TREFYNWY, NP25 4QN.</u>**

Rhoesom ystyriaeth i adroddiad y cais, a argymhellwyd i'w gymeradwyo yn amodol ar y ddau amod, fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad.

Mynegodd yr Aelod lleol dros Trellech United, hefyd yn Aelod o'r Pwyllgor Cynllunio, ei gefnogaeth i'r cais.

Wedi ystyried adroddiad y cais a'r safbwyntiau a fynegwyd, cynigiwyd gan y Cynghorydd Sir D. Blakebrough ac eiliwyd gan y Cynghorydd Sir P.R. Clarke fod cais DC/2017/00090 yn cael ei gymeradwyo yn amodol ar y ddau amod, fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad.

Cymerwyd pleidlais a chofnodwyd y pleidleisiau canlynol:

| | | |
|---|---|---|
| O blaid cymeradwyo | - | 13 |
| Yn erbyn cymeradwyo | - | 0 |
| Atal pleidlais | - | 0 |

Cariwyd y cynnig.

Penderfynasom fod cais DC/2017/00090 yn cael ei gymeradwyo yn amodol ar y ddau amod, fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad.

**CYNGOR SIR FYNWY**

**Cofnodion y cyfarfod o'r Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Yr Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA ar Dydd Mawrth, 7 Mawrth, 2017 am 2.00 pm**

8. **Cynllun Datblygu Lleol Drafft Ganllawiau Cynllunio Atodol Llety Twristiaeth Cynaliadwy.**

Rhoesom ystyriaeth i'r Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) ar Lety Twristiaeth Cynaliadwy, gyda'r bwriad o'u cyflwyno ar gyfer ymgynghori.

Penderfynasom gymeradwyo'r Canllawiau Cynllunio Atodol Drafft (CCA) ar Lety Twristiaeth Cynaliadwy gyda'r bwriad o'u cyflwyno ar gyfer ymgynghori ac argymell i'r Aelod Cabinet dros Arloesi, Menter a Hamdden yn unol â hynny.

9. **Penderfyniad Apêl - Heol y Capel, Y Fenni.**

Derbyniasom adroddiad yr Arolygiaeth Gynllunio a gyfeiriodd at benderfyniad apêl yn dilyn ymweliad safle a wnaed ar 6ed Chwefror 2017.
Safle: 1 Heol y Capel, Y Fenni.

Cawsai'r apêl ei gwrthod.

10. **Penderfyniad Apêl - Highway Barn, Llanfihangel Troddi.**

Derbyniasom adroddiad yr Arolygiaeth Gynllunio a gyfeiriodd at benderfyniad apêl yn dilyn ymweliad safle a wnaed ar 23ain Rhagfyr 2016.
Safle: Highway Barn, Common Road, Llanfihangel Troddi.

Caniatawyd yr apêl a rhoddwyd caniatâd cynllunio ar gyfer estyniad ateg un llawr ar y wedd orllewinol (y cefn) yn Highway Barn, Common Road, Llanfihangel Troddi NP25 4JB yn unol â thelerau'r cais, Cyf. DC/2016/00917, dyddiedig 02 Awst 2016, a'r cynlluniau a gyflwynwyd gydag ef, yn amodol ar yr amodau canlynol:

1) Bydd y datblygiad yn cychwyn heb fod yn hwyrach na phum mlynedd o ddyddiad y penderfyniad hwn.

2) Cyflawnir y datblygiad yn unol â'r cynlluniau a'r dogfennau canlynol: 01 (Lleoliad a chynllun safle); 02 (Gweddau a chynlluniau presennol), 03 (Gweddau a chynlluniau arfaethedig); 04 (Lluniad isometrig presennol); 05 (Lluniad isometrig presennol); 06 (Lluniad isometrig presennol); 07(Lluniad isometrig presennol); 08 (Lluniad isometrig arfaethedig); 09 (Lluniad isometrig arfaethedig); 10 (Lluniad isometrig arfaethedig); ac 11 (Lluniad isometrig arfaethedig).

3) Diogelir y coed derw yn unol â'r argymhellion a osodwyd yn Adran 6 o Arolwg BS 5837 a Datganiad o Ddull Coedyddiaeth a baratowyd gan Ymgynghoriaeth Coed Broadway dyddiedig Gorffennaf 2016.

11. **Penderfyniad Apêl - Yr Hen Stabal, Y Fenni.**

Derbyniasom adroddiad yr Arolygiaeth Gynllunio a gyfeiriodd at benderfyniad apêl yn dilyn ymweliad safle a wnaed ar 12fed Ionawr 2017. Safle: Tir yn Yr Hen Stabl, Dwyrain Heol yr Undeb, tu cefn i 150 Heol St. Helens, Y Fenni.

Caniatawyd yr apêl ar sail (e), ac amrywiwyd yr hysbysiad gorfodi drwy osod “neu wedi’i staenio” yn ail ran y gofyniad yn Rhestr 4 o’r hysbysiad fel y bydd yn darllen “Dylid newid y ffenestri a’r drysau i bren wedi’i baentio neu wedi’i staenio”, a thrwy ddileu 3 mis calendr a’i amnewid â 6 mis calendr fel yr amser ar gyfer cydymffurfio a nodwyd yn Rhestr 4 o’r hysbysiad. Yn amodol ar yr amrywiadau hyn, mae’r hysbysiad gorfodi’n cael ei gynnal, a gwrthodwyd caniatâd cynllunio ar y cais y tybir iddo gael ei wneud dan adran 177(5) o Ddeddf 1990 fel y’i diwygiwyd.

**12. Apeliadau a dderbyniwyd.**

Derbyniasom a nodwyd yr apeliadau a dderbyniwyd.

**13. Nodi newid dyddiad cyfarfod Mai 2017:**

Bu’n rhaid newid dyddiad cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio ym Mai ac fe’i cynhelir nawr ar ddydd Mawrth 25$^{ain}$ Ebrill 2017 yn cychwyn am 2.00pm